# Mynegiad o Ddiddordeb: Cronfa Rhwydweithiau Natur £250,000 i £1miliwn

See all updates
Gofynnwn i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais am grant Rhwydweithiau Natur rhwng £250,000 ac £1miliwn gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb cyn gwneud cais.

Diweddarwyd y dudalen ddiwethaf: 8 Gorffennaf 2024.

**Rhaid** i chi ddefnyddio'r canllaw hwn i'ch cynorthwyo i gwblhau'r Mynegiad o Ddiddordeb ar-lein ar gyfer grantiau dros £250,000 hyd at £1m. Os na fyddwch yn cyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb ni fyddwch yn cael eich gwahodd i gyflwyno cais llawn.

**Pwysig:** Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn defnyddio'r un ffurflenni ar draws amrywiaeth o raglenni yr ydym yn eu darparu. Wrth lenwi eich ffurflen gais, mae'n rhaid i chi ddilyn yr arweiniad isod am fod angen ateb rhai cwestiynau yn wahanol ar gyfer y rhaglen hon. **Ni ddylech** ddefnyddio'r eiconau cymorth sydd wedi'u hymwreiddio yn y ffurflen ar-lein gan nad ydynt yn gysylltiedig â'r ariannu hwn.

Mae cyfrif geiriau'r Mynegiad o Ddiddordeb yn fwriadol fyr (uchafswm o 1,000 o eiriau) er mwyn lleihau amser ac ymdrech i chi wrth gwblhau'r cam hwn.

## Cyn cyflwyno

Cofiwch sicrhau eich bod wedi darllen:

- Yr arweiniad ymgeisio ar gyfer Rhwydweithiau Natur (rownd 4)

## Cwestiynau'r Mynegiad o Ddiddordeb

Gallwch weld y cwestiynau yn y Mynegiad o Ddiddordeb isod.

### Ydych chi wedi siarad ag unrhyw un yn y Gronfa Treftadaeth am eich syniad?

Os ydych, dywedwch wrthym beth yw eu henw. Dywedwch wrthym hefyd os ydych wedi siarad ag unrhyw un yn Cyfoeth Naturiol Cymru am eich prosiect.

### Disgrifiwch yr hyn y byddwch yn ei wneud yn ystod y prosiect.

Gofynnir i chi gynnwys unrhyw dasgau y mae'n rhaid i chi eu gwneud i gyflawni nod y prosiect. Mae gennych 200 o eiriau.

### A oes gennych deitl ar gyfer y prosiect?

**Rhaid** i deitl eich prosiect gynnwys y rhagddodiad #NNF4 (er enghraifft #NNF4 Gwelliannau Gwarchodfa Natur Gweision y Neidr)

## Amlinellwch sut y bydd eich prosiect yn ymateb i'n pedair egwyddor fuddsoddi.

Peidiwch â dweud wrthym am y safle(oedd) treftadaeth eto, gellir manylu ar hyn ar y cwestiwn canlynol.

Dywedwch wrthym:

- Sut y bydd eich prosiect yn gwella cyflwr a chydnerthedd rhwydwaith safleoedd gwarchodedig Cymru drwy waith cyfalaf er budd cynefinoedd a rhywogaethau?
- Sut y bydd eich prosiect yn gwella hygyrchedd ac ymgysylltiad â'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig?
- Pa gymunedau y byddwch chi'n gweithio gyda nhw?
- Sut y bydd eich prosiect yn gwella eich cydnerthedd sefydliadol ac, felly, eich gallu yn y dyfodol i reoli'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig?

Mae gennych 300 o eiriau.

## Dywedwch wrthym am dreftadaeth y prosiect.

Dywedwch wrthym:

- Ble fydd y gwaith yn digwydd?
- Pa gynefinoedd/rhywogaethau y byddwch chi'n gweithio i'w gwella?

Ar gyfer y rhaglen hon, mae treftadaeth yn cyfeirio at y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig. Dylech esbonio sut mae eich prosiect yn cysylltu â'r rhwydwaith (er enghraifft, enwau safleoedd penodol a chyfeirnodau grid a/neu bobl/sefydliadau sy'n eu rheoli) a pham ei fod yn bwysig (ar gyfer bioamrywiaeth/bywyd gwyllt a phobl ill dau).

Mae gennych 100 o eiriau.

## Beth yw'r angen am y prosiect hwn?

Pa waith ydych chi wedi'i wneud sy'n dangos manteision posibl y prosiect? Mae gennych 200 o eiriau.

## Faint o amser ydych chi'n meddwl y bydd y prosiect yn ei gymryd?

Dywedwch wrthym beth yw eich dyddiadau dechrau a gorffen amcangyfrifedig. Rhaid i'ch prosiect gael ei gwblhau erbyn **31 Mawrth 2028** gan gynnwys gwerthuso ac adrodd terfynol.

Mae gennych 50 o eiriau.

## Faint mae'r prosiect yn debygol o gostio?

Rhaid i chi wneud cais am swm rhwng £250,000 ac £1miliwn Gellir amcangyfrif y costau hyn. Os oes angen llai arnoch, dylech gwblhau Ymholiad Prosiect am £50,000 i £250,000 ac nid Mynegiad o Ddiddordeb. Rhowch symiau amcangyfrifedig o gostau cyfalaf a refeniw y byddwch yn gwneud cais amdanynt.

Mae gennych 200 o eiriau.

## Faint o ariannu ydych chi'n bwriadu gwneud cais amdano gennym?

Nodwch swm.

**Pryd ydych chi'n debygol o gyflwyno cais am ariannu, os gofynnir i chi wneud hynny?**

Mae gennych 50 o eiriau. Rhaid i chi gyflwyno'ch cais erbyn 12 hanner dydd ar 8 Tachwedd 2024.

# Sut i gyflwyno

Pan fyddwch chi'n barod, cwblhewch y Mynegiad o Ddiddordeb ar ein gwasanaeth Cael eich ariannu ar gyfer prosiect treftadaeth.

Bydd angen i chi gofrestru cyfrif i chi'ch hun ac i'r sefydliad yr ydych yn gwneud cais amdano os nad oes gennych un eisoes.

# Clywed yn ôl gennym

Anelwn at ymateb i'ch Mynegiad o Ddiddordeb o fewn **20 diwrnod gwaith**.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi drwy e-bost a ydych wedi llwyddo i gael eich gwahodd i gyflwyno cais llawn i Rhwydweithiau Natur Rownd 4.